Cwestiynau i'r Athro Trevor Purt, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 2 Hydref 2014.

A PERFFORMIAD

1 Cyng Steve Churchman

Pam bod y *Bwrdd Iechyd* yn gosod cleifion allanol ar restr aros ar gyfer rhestr aros? Hynny yw, pam bod cleifion yn derbyn llythyr i ofyn iddynt ffonio ymhen hyn a hyn o wythnosau i wneud apwyntiad?

2 Ydi aros am dair awr ar gyfer *brysbennu* (triage) yn dderbyniol? (O ystyried mai pwrpas *brysbennu* (triage) yw sortio'r bobl efo anafiadau oddi wrth bobl sy'n marw.)

3 Cyng Liz Saville Roberts

Mae pryderon ynghylch y gwasanaeth mae cleifion brys yn derbyn gan y Gwasanaeth Ambiwlans yng Ngwynedd, ac yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a gyda'r nos pan na fydd yr Ambiwlans Awyr yn gallu hedfan. Mae nifer y galwadau argyfwng yn cynyddu (667 Gorffennaf 2014;662 Gorffennaf 2012) tra bod canran yr achosion lle mae'r gwasanaeth yn cyrraedd o fewn 8 munud yn disgyn (56.7% Gorffennaf 2014; 59.4% Gorffennaf 2012).

O ystyried mai ansawdd gwasanaethau i'r claf ddylai fod yn flaenoriaeth, sut gallai'r Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaeth Ambiwlans gydweithio i wella cyflymder ac ansawdd gwasanaeth galwadau brys?

4 Cyng Alwyn Gruffydd

Pam y cynghorwyd claf mai'r ffordd orau iddo dderbyn triniaeth oedd aros yn yr ysbyty am ychydig ddyddiau ychwanegol, gan y byddai'r amser aros ar gyfer ei driniaeth unwaith y byddai'n mynd adref yn sylweddol hirach?

B IAITH

5 Cyng Alwyn Gruffydd

Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gwireddu ei bolisi iaith i gyfarch anghenion iaith cleifion sy'n siarad Cymraeg?

C PARTNERIAETH

6 Cyng Beth Lawton

Sut ydach chi am ennill hyder pobl Gwynedd yn ôl?

7 Beth yw eich gweledigaeth ar gyfer ysbytai bach?

8 Cyng Mandy Williams-Davies

Gyda datblygiadau yn y maes iechyd yn ein galluogi ni i fyw yn hŷn, mae'r galw am ofal ar sawl lefel yn cynyddu a pherthynas rhwng Cynghorau, Byrddau Iechyd a'r Llywodraeth

yn angenrheidiol. Pwy yn eich barn chi ddylai arwain a chydlynu'r berthynas yma i ddarparu'r gofal gorau?

9 Bethan Russell Williams (Prif Swyddog Mantell Gwynedd)
Yn sgil y pwysigrwydd cynyddol a osodir ar weithgareddau ataliol, a oes unrhyw fwriad gan y Bwrdd Iechyd i fuddsoddi yn yr agenda ataliol yn y dyfodol?

10 Bethan Russell Williams
Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gweld cyfraniad y Trydydd Sector o ran darparu gwasanaethau iechyd yng ngogledd Cymru yn y blynyddoedd i ddod?

11 Bethan Russell Williams
Prif bryder mudiadau'r Trydydd Sector sy'n gweithio ar hyn o bryd gyda'r Bwrdd Iechyd yw diffyg unrhyw sicrwydd tymor hir o safbwynt ariannu. A oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw gynigion i ddarparu sicrwydd tymor hir i'r Trydydd Sector a fydd yn caniatáu cynllunio tymor hir go iawn

## CH RECRIWTIO

12 Cyng Eryl Jones-Williams
Mae diffyg meddygon mewn ardaloedd gwledig yn sefyllfa argyfyngus mewn rhai ardaloedd gwledig (ac yn arbennig yn ardaloedd Abersoch, Blaenau Ffestiniog, Abermaw a Dolgellau ar hyn o bryd). Gallai hyn gael effaith negyddol ar ofal yn y gymuned a'r newidiadau sy'n cael eu gwneud gan Wasanaethau Cymdeithasol Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd.

- Yn eich barn chi, beth yw effaith prinder meddygon ar y gwasanaeth?
- Sut fyddwch chi'n delio gyda hyn?

13 Cyng Alun Mummery (Cyngor Sir Ynys Môn)
Pa gamau mae'r Bwrdd yn eu cymryd i recriwtio doctoriaid a nyrsys i weithio yng ngogledd Cymru, ac oes digon yn cael ei wneud i recriwtio pobl ifanc lleol i'r proffesiwn meddygol?

14 Cyng Alun Mummery (Cyngor Sir Ynys Môn)
A yw'r broses recriwtio bresennol yn cadw i fyny â llenwi swyddi gwag doctoriaid a nyrsio yn y dyfodol ac yn y presennol?